Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Camau Cyntaf – Pengwiniau Pentre

**Central Park**
**Canolfan Hamdden Llanilltud Faerdref**
**Pentre'r Eglwys**
**CF38 1RJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Camau Cyntaf – Pengwiniau Pentre

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Camau Cyntaf – Pengwiniau Pentre |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Lisa Thomas |
| Person â gofal | Nadine Rosenberg |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | Rhwng 21 mis a phum mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 12 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 11 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Rhwng 8.30 a 15.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg, ac yn bwriadu bod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 10/10/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/04/2023 |
| Ychydig o'r plant sy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg.<br><br>Ychydig iawn o'r plant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Codi safonau rhifedd y plant

A2 Sicrhau bod ymarferwyr bob amser yn annog y plant i ymateb yn y Gymraeg yn ystod eu gweithgareddau yn unol â'u gallu â'u cam datblygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf o'r plant yn hapus o fewn eu hamgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn hapus wrth gyrraedd a gadael eu rhieni. Mae'r rhan fwyaf yn hapus i fynd at yr ymarferwyr am gymorth a chwtsh pan maent wedi blino neu pan maent yn drist. Maent yn frwdfrydig wrth eu hamrywiol dasgau ac yn eu mwynhau'n fawr. Mae bron bob un yn ymfalchïo pan fydd ymarferwyr yn rhoi clod iddynt am arllwys eu llaeth neu am roi menyn ar dost, er enghraifft.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn dangos ymdeimlad cryf o berthyn i'r lleoliad ac mae ganddynt lais cryf mewn perthynas â dewis gweithgareddau a ble yr hoffent dreulio eu hamser. Maent yn teimlo bod ymarferwyr yn eu gwerthfawrogi, yn gwrando arnynt ac yn parchu eu hoffterau wrth ddewis bwyd a diod neu wrth ddewis eu hoff ardaloedd chwarae. O ganlyniad, maent yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau'n dda naill ai ar lafar neu drwy gyswllt llygad â'r ymarferwyr sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r plant ieuengaf yn pwyntio at adnoddau tra bod llawer o'r rhai hŷn yn mynegi'n glir ar lafar yr hyn maent ei angen, fel mwy o laeth neu wahanol ffrwythau adeg snac.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n dda ymysg ei gilydd ac yn cyfathrebu'n effeithiol â'u cyfoedion. Maent yn garedig, yn ymddwyn yn gwrtais a chyfeillgar, yn cymryd tro ac yn rhannu teganau yn unol â'r hyn sy'n briodol o ystyried eu hoed a'u cam datblygiad. Mae ychydig yn dangos empathi tuag at eraill fel estyn llaw i helpu

plentyn arall i gydbwyso ar yr offer yn yr ardal allanol. Mae rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r ymarferwyr, yn eu parchu ac yn gwrando'n astud ar eu cyfarwyddiadau a'u cwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda wrth chwarae tra, er enghraifft wrth greu cymysgedd hud yn defnyddio blodau, perlysiau, blawd, dŵr, sbeisys a lliw. Maent hefyd yn frwdfrydig wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn mwynhau cymysgu bagiau te yng 'Nghaffi Pengwiniaid Pentre' a thorri tatws, afalau a phannas 'go iawn' yn y gegin fwd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau, gydag ychydig yn chwerthin yn uchel wrth iddynt ddilyn ei gilydd ar feiciau a chrasio, er enghraifft.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau annibynnol da. Wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, mae'r mwyafrif yn chwilio am eu henwau a lluniau ohonynt a rhoi cotiau a bagiau ar eu bachyn yn annibynnol. Mae bron bob un yn helpu eu hunain i blât, gwydr a chyllell amser snac. Mae rhan fwyaf yn arllwys eu llaeth a'u dŵr eu hunain ac yn rhoi menyn ar ddarn o dost neu gracer cyn dychwelyd y llestri i'r badell olchi ar ôl gorffen.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar ymarferwyr ac yn ymateb yn addas i gyfarwyddiadau. Mae llawer yn ymateb yn hyderus wrth i'r ymarferydd awgrymu eu bod yn ychwanegu lliwur i ddŵr i newid ei liw wrth greu cymysgeddau diddorol. Mae mwyafrif y plant yn dechrau dangos diddordeb mewn llyfrau. Maent yn mwynhau eu cynnwys ac yn eu trin yn briodol a chyda pharch yn y gornel ddarllen, gan ymateb yn briodol i'r egwyddor mai gweithgaredd i'w fwynhau yw darllen. Mae llawer o'r plant yn dechrau datblygu medrau ysgrifennu cynnar drwy arbrofi ag amrywiol ddeunyddiau fel creonau, paent a sialc. Maent yn mwynhau gwneud hyn ac yn falch iawn o'u cynnyrch. Mae bron bob un yn ailadrodd, yn gywir, geiriau fel 'Ydy' neu 'Nac ydy' ac yn ymuno i ganu caneuon fel 'Sut mae'r tywydd heddiw?' neu 'Hwyl fawr ffrindiau' yn ystod amser cylch. Er hyn, ychydig iawn o'r plant sy'n defnyddio'r Gymraeg yn naturiol fel cyfrwng mewn gwahanol gyd-destunau wrth chwarae'n annibynnol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith, efallai, mai ychydig iawn sy'n dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.

Mae bron bob un o'r plant yn canu ystod o ganeuon a rhigymau rhif fel 'Pum crocodeil yn nofio yn yr afon' yn hyderus yn ystod amser cylch. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio iaith fathemategol syml mewn cyd-destunau perthnasol fel cymharu gwrthrychau mawr a bach neu wrth edafu cylchoedd ar ddarnau o bren i greu patrwm. Mae llawer yn cyfrif hyd at ddeg gyda chymorth wrth adeiladu tyrau o flociau, er enghraifft, ac mae ychydig o'r plant mwy abl yn cyfrif hyd at ugain gwrthrych. Mae'r mwyafrif yn adnabod lliwiau yn lled hyderus yn y Gymraeg, ac yn cyfateb gwrthrychau tebyg wrth chwarae. Er hyn, elfennol yw medrau rhifedd mwyafrif y plant o ystyried eu hoed a cham cynnydd.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau corfforol da wrth chwarae ar y beiciau, ac yn mentro'n hyderus ar hyd y llwybr lliw a'r bont bren neu wrth grwydro trwy'r twnnel yn yr ardal allanol. Mae llawer yn meistroli'r dasg o droi cylch mawr o gwmpas eu canol ac yn cael hwyl wrth wneud hynny. Mae eraill yn defnyddio offer fel cyllell cegin yn hyderus gan gymryd risgiau priodol wrth 'roi cynnig' ar dorri perlysiau yn y gegin neu wrth ddefnyddio morthwyl i fwrw hoelen yn y gweithdy. Mae bron bob un yn adnabod rhannau'r corff fel clustiau, llygaid a thrwyn.

Mae bron bob un yn datblygu medrau cerddorol cynnar da ac yn cadw rhythm yn gywir wrth wrando ar gerddoriaeth a symud i'r curiad gan efelychu gwahanol anifeiliaid. Mae llawer yn defnyddio offerynnau taro yn synhwyrol i greu eu rhythmau eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gyfarwydd â defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn eu chwarae a'u gweithgareddau bob dydd ac yn gwneud hynny'n lled hyderus. Er enghraifft, maent yn defnyddio llechen electronig i ffurfio llythrennau ac i dynnu lluniau o'u hunain yn y salon harddwch.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae perthynas agos yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae'r holl ymarferwyr yn dangos parch a charedigrwydd tuag at y plant wrth eu cyfarch yn y bore. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cyfathrebu'n briodol â'r plant, yn dathlu eu llwyddiannau ac yn modelu ymddygiad cadarnhaol yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn diolch ac yn rhoi clod i blant am dacluso ac am rannu teganau â'u ffrindiau. Mae'r ymarferwyr yn parchu diddordebau, hoffterau a gofynion personol y plant. Er enghraifft, maent yn darparu dinosoriaid a doliau yn yr ardaloedd mewnol ac allanol oherwydd bod y plant yn eu hoffi. Maent hefyd yn gadael iddynt gael eu gwrthrychau cysur personol pan maent eu hangen.

Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac maent yn diwallu eu hanghenion yn dda yn unol â'u cam datblygiad a'u diddordebau. Maent yn cynnal a chofnodi arsylwadau gofalus ar blant yn rheolaidd. Mae'r rhain yn bwydo'r cynlluniau ar gyfer eu camau datblygiad naturiol nesaf. Maent yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu hannibyniaeth ar adegau fel amser snac a thrwy chwarae gydag adnoddau bywyd 'go iawn.' Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol ac yn ofalgar iawn o'r plant. Er enghraifft, maent yn rheoli risgiau yn effeithiol i sicrhau bod plant yn ddiogel wrth chwarae gyda morthwyl a hoelion yn y gweithdy.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r fframwaith anghenion dysgu ychwanegol, ac yn benodol am y trefniadau a'r cysylltiadau sydd ar gael iddynt pe bai angen cymorth ychwanegol ar unigolion.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel unigolion. Mae ganddynt drefniadau a systemau goruchwylio cadarn ac effeithiol. Maent yn cwblhau asesiadau risg dyddiol ac yn eu diweddaru'n rheolaidd mewn

modd cynhwysfawr a manwl. Mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr i sicrhau iechyd a diogelwch y plant yn seiliedig ar hylendid bwyd, glanhau a newid cewynnau. Maent yn hyrwyddo arferion bwyta ac yfed iach yn llwyddiannus trwy ddarparu snac iachus a maethlon i’r plant. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau gan gynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni ac yn diwallu anghenion meddygol a dietegol plant unigol yn briodol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd ysgogol a diddorol i'r plant sy'n seiliedig ar eu hanghenion ac yn rhoi cyfleoedd defnyddiol iddynt ddatblygu eu chwilfrydedd mewn amgylchedd ddysgu symbylus a diogel. Maent yn annog y plant i arwain eu dysgu eu hunain, lle bo’n briodol, ac yn dechrau ymyrryd dim ond pan fydd hynny’n addas. Drwy wneud hyn, maent yn gwneud y mwyaf o’r cyfleoedd sy’n codi i ddatblygu medrau’r plant mewn modd gwbl naturiol. Rhoddir ystyriaeth gadarn i brif egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn dilyn syniadau a diddordebau’r plant wrth gynllunio gweithgareddau yn hytrach na chynllunio’n rhy bell ymlaen llaw.

Defnyddia ymarferwyr eu gwybodaeth am ddatblygiad plant yn lled llwyddiannus wrth gynllunio gweithgareddau sy’n datblygu eu medrau mewn meysydd penodol fel rhifedd, llythrennedd a TGCh cynnar. Mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyson i blant glywed a defnyddio geirfa ac ymadroddion cyfarwydd yn y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys gorchmynion fel 'Golchwch eich dwylo' ac 'Eisteddwch', adeg snac a 'Bore da, sut wyt ti?’ a ‘Beth yw’r tywydd heddiw?’ yn y sesiynau amser cylch. Er hyn, nid yw pob ymarferydd bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i annog digon ar y plant i ymateb yn y Gymraeg.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Maent yn hybu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy ganu caneuon Cymraeg, a chynllunio gweithgareddau iddynt ddysgu mwy am Ddewi Sant a Santes Dwynwen. Mae’r ymarferwyr yn creu gweithgareddau sy’n annog plant i ddefnyddio eu chwilfrydedd ac i ganolbwyntio ar yr awch a rhyfeddod am y byd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r rhain yn cynnwys astudio cylch bywyd lindys neu ddysgu am yr amodau sydd angen ar blanhigion tomatos i dyfu.

Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar onestrwydd, tegwch, a pharch yn eu holl weithgareddau ac maent yn sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt drin ei gilydd eu hamgylchedd a'u hadnoddau'n ofalus. Darperir profiadau dysgu a chwarae priodol i ddatblygu medrau cymdeithasol y plant. Mae’r rhain yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb am dacluso ar ddiwedd sesiwn, gosod y platiau yn ystod amser snac, cymryd tro ar y beiciau a gwrando ar ei gilydd tra wrth eu tasgau.

Mae gan ymarferwyr dealltwriaeth dda o’u rolau fel gweithwyr allweddol ar gyfer grwpiau o blant, gan arsylwi ar eu datblygiad a chynllunio’r camau naturiol nesaf ar eu cyfer. Maent yn gweithredu asesiad cychwynnol ar bob plentyn er mwyn sefydlu gwaelodlin ac yn defnyddio taflen ‘Popeth amdanaf i’ a phroffil un dudalen i gofnodi’r

wybodaeth. Mae ymarferwyr yn eu tro hefyd yn arsylwi ac asesu plant yn rheolaidd ond yn anffurfiol, ac yn cofnodi'r sylwadau ar ddyddiadur neu gofnod penodol. Mae'r rhain yn sail i'w hasesiadau crynodol, maes o law. Mae'r holl ymarferwyr yn cyfrannu at broffil pob plentyn hyd yn oed os nad yw'n weithiwr allweddol iddynt. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i gynllunio'r camau dysgu nesaf iddynt yn eu dysgu a'u chwarae.

Mae ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr cyn i'w plant gychwyn er mwyn cael persbectif unigol o'u cryfderau a'u diddordebau. Cofnodir y rhain ar eu proffil un dudalen ac fe'u trafodir mewn cyfarfodydd gyda'r rhieni.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn un diogel, croesawgar a lliwgar. Mae'r ardaloedd chwarae yn eang ac wedi eu trefnu'n effeithiol i ennyn diddordebau'r plant a'u hannog i chwarae'n hapus ac archwilio'n chwilfrydig. Maent yn sicrhau bod yr ardal allanol yn cynnig profiadau estynedig i'r plant, i'w galluogi i ddatblygu medrau corfforol da, ac i ehangu eu dychymyg, eu diddordeb mewn dysgu a'u hawch at ddarganfod. Darperir cyfleoedd priodol i ddatblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned ehangach. Er enghraifft, mae cyflenwad o adnoddau ar gael fel doliau, pypedau, gwisgoedd a llyfrau o wahanol ddiwylliannau a chredoau. Mae digon o adnoddau amrywiol o safon uchel gan y lleoliad, sy'n gymorth cadarn iddynt feithrin chwilfrydedd y plant at ddysgu ac arbrofi. Mae'r adnoddau'n cynnwys cyflenwad o offer a bwyd 'go iawn', twba tywod mewn ffurf cwrwgl, cafn dŵr a chegin fwd. Mae adnoddau naturiol ac amlsynhwyraidd ar gael i'r plant eu defnyddio i'w hannog i chwarae 'byd bach' er mwyn efelychu amgylcheddau naturiol i anifeiliaid, fel rhai'r fferm a'r sw.

Mae gan arweinwyr drefniadau effeithiol i gadw plant yn ddiogel. Mae ganddynt systemau diogelwch sy'n gadarn ac mae eu cofnodion o wiriadau amgylcheddol yn bodloni gofynion ac yn cael eu diwygio'n rheolaidd ac amserol.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu amgylchedd cadarn sy'n annog y plant i deimlo eu bod yn perthyn yno. Maent yn cyfoethogi hyn drwy arddangos ffotograffau teuluol y plant ynghyd â'u hymdrechion creadigol. Ceir dewis da o adnoddau sydd wedi eu lleoli'n bwrpasol ar lefel y plant. Maent yn eu sbarduno i ddysgu ac yn adlewyrchu eu diddordebau, eu hoedran a'u gallu yn dda. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod cyfnodau penodol ar gael i blant chwarae yn yr ardaloedd dysgu mewnol ac allanol yn ddi-dor yn ystod y sesiynau.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol plant yn effeithiol. Ceir cyfleoedd i blant ymgynnull ar gyfer snac a chinio ac i ymgymryd â gweithgareddau bwrdd ar gelfi sydd o ansawdd da ac sy'n addas i'w hoedran. Mae arweinwyr yn sicrhau y perchir preifatrwydd y plant ar adegau pan mae hynny'n bwysig iddynt, ynghyd â chynnig cyfleoedd iddynt gael amserau tawel i ymlacio a chysgu pan mae angen.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Mae hon wedi'i seilio ar ddarparu gofal o ansawdd uchel i blant ynghyd â chynnig cyfleoedd iddynt ddysgu

drwy chwarae mewn amgylchedd diogel, croesawgar ac ysgogol. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus i'r ymarferwyr a'r rhieni. Trwy hyn, maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn eu deall ac yn cydweithio'n effeithiol mewn amgylchedd hapus sy'n rhoi pwyslais cadarn ar iechyd a lles bob plentyn. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel i'r ymarferwyr ac yn gwerthfawrogi eu hymrwymiad a'u hymdrechion. Maent yn cefnogi anghenion dysgu proffesiynol a phersonol yr holl ymarferwyr i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Ceir ethos cadarnhaol yn y lleoliad ac mae'r plant a'r ymarferwyr yn hapus yno. Trafodir materion pwysig sy'n ymwneud â datblygiad y plant yn rheolaidd, a gweithredir arnynt yn barhaus. Mae amcanion y lleoliad yn glir ac yn canolbwyntio'n dda ar anghenion dysgu a lles plant. Mae'r ymarferwyr yn eu deall a'u gweithredu ac maent ar gael i rieni, yn ôl yr angen.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn chwarae rhan greiddiol yng ngweithgareddau'r lleoliad, gan gydweithio'n agos â'r person â gofal. Mae hyn yn sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd ac yn ei galluogi i gefnogi'r ymarferwyr yn barhaus. Mae arweinwyr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant cadarn o ddiogelwch ar gyfer y lleoliad.

Mae arweinwyr yn deall pwysigrwydd datblygu medrau Cymraeg yr ymarferwyr ac maent yn darparu cyfleoedd priodol iddynt dderbyn hyfforddiant ar gyfer hyn. Er bod y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn gwneud ymdrech dda i siarad Cymraeg â'r plant yn gyson, nid yw pob un hyd yma yn ddigon hyderus i annog y plant i ymateb yn Gymraeg pan maent wrth eu tasgau.

Mae gan y lleoliad weithdrefn addas i werthuso'i waith ac mae'r holl ymarferwyr yn rhan ohoni. Mae arweinwyr hefyd yn ystyried barn rhieni a gofalwyr trwy gyfrwng holiaduron. Mae arweinwyr yn adnabod yn gywir yr hyn mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda, a'r hyn sydd ddim mor effeithiol. Mae deilliannau'r weithdrefn hunanwerthuso yn dylanwadu'n uniongyrchol ar rai o flaenoriaethau'r cynllun gwella, gyda'r gweddill yn rhai a bennir gan swyddog yr awdurdod lleol.

Rheolir staff ac adnoddau yn ddarbodus gan yr unigolyn cyfrifol a'r arweinwyr. Mae rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr yn glir ac mae system recriwtio gadarn ar waith. Mae cymarebau da o oedolion i blant a chynlluniau addas wrth gefn sydd wedi'u sefydlu rhag ofn y bydd staff yn absennol. Mae'r weithdrefn ar gyfer goruchwylio ac arfarnu ymarferwyr yn effeithiol ac yn arwain at osod targedau priodol y cytunwyd arnynt.

Gwneir defnydd addas o Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a grantiau eraill i ariannu hyfforddiant i'r ymarferwyr, ac i brynu adnoddau ac addasu'r ardal ddysgu allanol.

Mae gan y lleoliad hanes llwyddiannus o weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion yr awdurdod lleol, ymarferwyr o leoliadau eraill a reolir gan y cwmni, a swyddogion Dechrau'n Deg, ymysg eraill. Mae arweinwyr hefyd yn gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr i nodi anghenion a dewisiadau unigol eu plant cyn ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Maent yn darparu gwybodaeth bwysig iddynt am eu polisïau gan ddefnyddio cylchlythyr rheolaidd, cyfrwng digidol a thrwy siarad â nhw ar ddechrau a diwedd y sesiwn, yn ôl yr angen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 30 Mehefin 2023